# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**346 - Beirniadaeth Rhyddiaith dan 19 oed – (Unrhyw ffurf)**

**Beirniad – Llinos Lloyd**

Dyma destun amserol o gofio'r cyfnod rydym wedi byw drwyddo. Aeth y tri chystadleuydd â ni i gyfeiriadau gwahanol wrth gyfleu'r testun.

Catrin

Disgrifir cyfnod cyfyngiadau Covid-19 drwy ddau ymson – bachgen ifanc a'i fam sy'n nyrs. Teimla'r bachgen ei fod yn cael ei garcharu - colli gweld ffrindiau, athrawon a chwarae pêl-droed. Rhaid cyfarwyddo â geirfa hyll y pandemig a dieithrwch pobl yn gwisgo mygydau. Dengys ymson y fam ei hofn i wynebu wardiau a disgrifir yn effeithiol y broses o wisgo'r offer cyn wynebu'r cleifion.

Aron

Dyma ymson person ifanc yn dangos ei ofnau wrth wynebu her newydd yn ei fywyd. Ar ôl cyrraedd y brig yn hyderus wrth gyflawni cymwysterau TGAU daw wyneb yn wyneb â disgwyliadau heriol Safon Uwch sy'n ei lethu. Yr hyn a ddarlunnir yn fyw yma yw gwewyr person ifanc o dan bwysau diddiwedd. Mae ofn y dyfodol yn ei amgylchynu ac yn troi'n fwystfil sy'n ei gaethiwo.

Jano

Yma, darlunnir problem gyfoes cefn gwlad sef colli tir ffrwythlon fferm i gwmni mawr i blannu coedwig. Ymdrinnir â themâu colli gwreiddiau ac olyniaeth yn grefftus. Cyfeirir at galedi gwneud bywoliaeth o'r fferm sy'n arwain at gyfyng gyngor y rhieni i werthu neu beidio. Ceir yma ysgrifennu rhwydd a naturiol ac ymdeimlir â phwysigrwydd y fferm i'r cymeriad drwyddi draw.

Cystadleuaeth agos rhwng y tri ond oherwydd bod elfen fwy creadigol yn perthyn i ddarn Jano gosodaf Jano yn gyntaf, Aron yn ail a Catrin yn drydydd. Diolch i'r tri am gyflwyno eu gwaith.

1af - Jano 2il - Aron 3ydd - Catrin